

## JONES, THOMAS ('Y Bardd Cloff'; 1768 - 1828), bardd

**Enw:** Thomas Jones  
**Ffugenw:** Y Bardd Cloff  
**Dyddiad geni:** 1768  
**Dyddiad marw:** 1828  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** Ray Looker

Ganwyd, y mae'n debyg, yn Llandysilio, sir Ddinbych. Aeth i Lundain yn 12 mlwydd oed i weithio yng nghyfrifdy gŵr o'r enw Mathew Davies, yn Long Acre. Ymddiddorai lawer mewn llenyddiaeth, ac yn enwedig mewn barddoniaeth Gymraeg. Yn 1789 etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion, ac yn fuan wedi hynny yn gofiadur y gymdeithas. Cyhoeddwyd ei awdl i'r gymdeithas yn 1799, ei 'Awdl ar Ddydd Gwyl Dewi Sant' yn 1802, a chasgliad o'i farddoniaeth yn 1828. Cafodd holl ofal masnach swyddfa ei feistr yn 1803, ac yn 1813 daeth yn gyfrannog ag ef. Etholwyd ef yn drysorydd Cymdeithas y Cymmrodorion pan atgyfodwyd honno yn 1820, ac enillodd fathodyn aur am y bryddest orau ar yr un achlysur. Gwnaethpwyd ef yn llywydd Cymdeithas y Gwyneddigion yn 1821 am y drydedd waith, ac yng ngwledd ei jiwbilli hi, anrhegwyd ef â bathodyn arian y gymdeithas. Yr oedd yn fardd eisteddfodol, ac enillodd amryw wobrwyon mewn gwahanol eisteddfodau a gynhelid yng Nghymru. Pan fu farw, 19 Chwefror 1828, cynigiodd y Cymmrodorion fathodyn arian am yr awdl orau a gyfansoddid iddo, ac fe'i henillwyd gan **Robert Davies** ('Bardd Nantglyn').

### Awdur

Ray Looker

### Ffynonellau

- T. Jones, *At Gymdeithas y Gwyneddigion yr awdl hon i'ch Gwledd Flunyddawl* (Llundain 1799)
- T. Jones, *Awdl ar Ddydd Gwyl Dewi Sant* (1802)
- T. Jones, *Barddoniaeth, sef Awdlau, Cerddi, ac Englynion* (Lerpwl 1828)
- T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)
- H. Ellis Hughes, *Eminent Men of Denbighshire. Their contribution to the story of Denbighshire and of Wales* (Lerpwl 1946), 185
- Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831), 23, 73
- Notable Welshmen (1700â€"1900)* (1908)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Thomas Jones (Y Bardd Cloff)**

### Gweithiau

William Thomas, *Ysgweier Morgan o Sir Aberteifi, 'Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol* (Caerfyrddin 1851), tt.5-6

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 9712575  
Wikidata: Q18672558

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiolch i  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government